# Adroddiad Blynyddol BGC 2024-25 - Crynodeb Gweithredol

## Beth yw'r BGC?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio mewn partneriaeth er mwyn dyfodol gwell.

## Beth yw'r Adroddiad Blynyddol?

Nododd y BGC ei flaenoriaethau yn ei Gynllun Llesiant 2023-2028. Mae'r Adroddiad hwn yn tynnu sylw at gynnydd y BGC dros y 12 mis diwethaf tuag at gyflawni Amcanion Llesiant y cynllun:

- Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd
- Bro sy'n fwy iach ac egnïol
- Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig

A'i dair ffrwd waith flaenoriaethol:

- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig
- Dod yn Fro sy'n dda i bobl hŷn

Mae partneriaid y BGC wedi rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni prosiectau allweddol y BGC, sydd wedi'u crynhoi isod. I weld yr Adroddiad Blynyddol llawn, cliciwch yma.

### Bro Oed-gyfeillgar:


Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bro Oed-Gyfeillgar 2025-2028 cyntaf erioed y Fro, sy'n darparu cyfeiriad clir ar gyfer mudiad 'oed-gyfeillgar' y Fro.


- Cofnodwyd dros 1,600 o ryngweithiadau eleni, gan ddangos bod sefydliadau lleol a phobl hŷn nid yn unig yn ymgysylltu â'r mudiad oed-gyfeillgar ond yn weithredol yn llunio gwasanaethau.
- Roedd calendr cyfarfodydd Fforwm Strategaeth 50+ y Fro yn cynnwys mwy na 25 o gyfarfodydd a digwyddiadau eleni. Mae digwyddiadau wedi gwella ymgysylltiad partneriaid â phobl hŷn trwy ddod â gwybodaeth a chefnogaeth yn uniongyrchol i gymunedau a rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr hŷn ddweud eu dweud.
- Mae cwrs Byw'n Dda, Heineiddio'n Dda, a gyd-gynhyrchwyd gyda BIPCaF, wedi cael ei dreialu. Mae'r cyrsiau'n cefnogi oedolion hŷn i wella cryfder, cydbwysedd, gweithgarwch corfforol, a llesiant cyffredinol.

### Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau mewn Cymunedau Difreintiedig:

Mae mentrau'r BGC sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn canolbwyntio ar weithio gyda'r tair cymuned yn y Barri sydd ymhlith y 10% â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (MALIC 2019). Mae'r cyflawniadau'n cynnwys:

- Ymgysylltwyd â dros 1,500 o unigolion trwy allgymorth i grwpiau cymunedol, sesiynau Slimming World, sefydliadau crefyddol, grwpiau ieuenctid, cymdeithasau cyn-filwyr, arweinwyr busnes lleol, cynghorwyr lleol, a gweithwyr proffesiynol o'r sectorau iechyd a chyflogaeth.
- Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a chymunedol i archwilio heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd a chyflogaeth, a datblygwyd cynlluniau gweithredu manwl sy'n cyd-fynd ag anghenion penodol y gymuned.
- Bydd canfyddiadau'r gweithdy yn llywio dull targedig gyda dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau parhaus sy'n wynebu preswylwyr, ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu datrysiadau mwy ymatebol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.





### Yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur:

Mae'r BGC yn blaenoriaethu mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur gyda'r nod o greu Bro "sy'n fwy cydnerth a gwyrdd" drwy nifer o brosiectau a mentrau trawsbynciol:

Mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Siarter Argyfyngau Hinsawdd a Natur y BGC newydd. Mae'r siarter yn nodi nifer o ymrwymiadau y bydd y BGC yn eu cyflawni er mwyn parhau i symud ymlaen â'r gwaith o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae partneriaid wedi parhau i fwrw ymlaen â gwaith i gyfrannu at Gynllun Gweithredu Adfer Natur Bro Morgannwg ac i warchod, amddiffyn a chyfoethogi natur yn y Fro.

Mae partneriaid yn parhau i wneud newidiadau i arferion caffael, gan sicrhau cadwyni cyflenwi cynaliadwy ac ystyried y gwerth cymdeithasol a grëir.

### Siarter Teithio Iach:

Mae Siarter Teithio Iach Bro Morgannwg yn hybu teithio cynaliadwy ymhlith staff y sefydliadau sydd wedi ei llofnodi. Trwy'r siarter, mae partneriaid wedi:

- Cyflwyno nifer o sesiynau cynnal a chadw beiciau 'Dr Bike' i gefnogi beicio i'r gwaith.
- Parhau i wella Metro De Cymru yn y rhanbarth, ynghyd â gwella seilwaith teithio llesol.
- Ymgymryd â gwaith cwmpasu ar gyfer dull cydgysylltiedig gan ddod â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru at ei gilydd i gefnogi cyflogwyr ynghylch teithio cynaliadwy.

Healthy Travel

### Bwyd Da a Symud:

Nod ‘Bwyd da a Symud’ yw ymgorffori cyfleoedd ar gyfer byw’n iach.

- Mae dogfennau newydd wedi cael eu creu i'w defnyddio fel rhan o'r ymarfer tendro ar gyfer contract rheoli hysbysebion newydd sy'n gwahardd hysbysebu bwydydd Uchel mewn Braster, Halen neu Siwgr (HFSS) ar ystâd yr awdurdod lleol ym Mro Morgannwg.
- Contractiwyd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i fapio mannau cymunedol i dyfu bwyd a nodi rhwystrau i gymryd rhan ym Mro Morgannwg.
- Cyflwynwyd prosiect Energise Youth, gan gael effaith ar 61 o bobl ifanc 11-24 oed gyda lefelau gweithgarwch / lles meddyliol isel trwy wasanaethau targedig.

### Partneriaeth Fwyd y Fro:

Mae Bwyd y Fro yn bartneriaeth o unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau ymroddedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu system fwyd ffyniannus, iach a chynaliadwy yn y Fro.

- Mae cyllid (cyfanswm o £12,000) ar gael i gefnogi tyfwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion. Nod y cynllun yw cynnwys cynnyrch organig sy'n cael ei dyfu'n lleol ar fwydlenni ysgol.
- Mae Bwyd y Fro yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghyngor Bro Morgannwg i gynllunio a gweinyddu dau gynllun grant bach sydd ar gael i grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled y Fro.
- Denodd Llwybr Bwyd y Fro yn 2024 tua 1000 o ymwelwyr a phobl leol. Cynhaliwyd cyfanswm o 46 o ddigwyddiadau amrywiol gan fwy na 30 o fusnesau lleol gan arddangos y gorau o fwyd a chynaliadwyedd lleol.

### Gwerth yn y Fro:

Canolfan ar gyfer gwirfoddolwyr, partneriaid a sefydliadau, sy'n cynnig manylion am gyfleoedd gwirfoddoli, yn galluogi sefydliadau i recriwtio gwirfoddolwyr, ac yn grymuso gwirfoddolwyr i gyfnewid eu hamser am wobrau.

- Darparwyd dros 100 o rolau gwirfoddol i gyfranogwyr ennill 'gwobrau' trwy wirfoddoli.
- Gweithiwyd gyda grwpiau llai o wirfoddolwyr ac unigolion i'w cefnogi i ddod o hyd i eitemau y gallai fod eu hangen arnynt ar gyfer eu prosiectau trwy gysylltu â busnesau lleol a roddodd yr eitemau am ddim.
- Mae gwaith partneriaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro wedi arwain at gefnogi myfyrwyr i wirfoddoli mewn cynlluniau tai gwarchod.

### Partneriaeth Bro Ddiogelach:

Mae Bro Ddiogelach yn gweithio i leihau troseddu ac anhrefn, a’r ofn ohono, trwy ddatblygu dulliau ataliol i ddiogelu trigolion lleol. Mae cynnydd yn cynnwys:

- Gwaith i wella diogelwch 85 eiddo yn y Fro, gan gynnwys gosod cloeon drws, goleuadau, teledu cylch cyfyng a larymau tresmaswyr i alluogi dioddefwyr cam-drin domestig (a theuluoedd) i aros yn eu cartref eu hunain ond teimlo'n fwy diogel i wneud hynny.
- Adroddwyd am 1862 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Arweiniodd hyn at 1452 o atgyfeiriadau, gyda 248 ar gyfer oedolion a 413 ar gyfer pobl ifanc. Adolygodd y tîm opsiynau ataliol yn ogystal â chyd-drefnu ymateb amlasiantaethol lle’r oedd hynny'n briodol.
- Mae'r bartneriaeth wedi parhau i weithio gyda a chefnogi’r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth ledled y Fro, gyda 438 o gofrestriadau newydd i rybuddion Cymdogaeth.

## Sylfaen Dystiolaeth:

Mae'r BGC yn parhau i fonitro data a thystiolaeth i sicrhau ei fod yn defnyddio'r mewnwelediad diweddaraf i gefnogi ei benderfyniadau. Adroddiadau:

- Newid Demograffig
- Sgiliau a'r Economi
- Iechyd a Chymunedau
- Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth



